# CA3 Cymraeg – Treiglad meddal: enwau

**Gweithgaredd 1**

**Atebion**

| | Brawddeg wreiddiol | Cywir / anghywir | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 1 | Roedd pawb yn siarad am y cerdd brydferth. | ✗ | Mae 'cerdd' yn enw benywaidd unigol, felly rhaid i ti dreiglo'r gair hwn yn feddal ar ôl 'y'. Y frawddeg gywir felly yw:<br><br>Roedd pawb yn siarad am y **gerdd** brydferth. |
| 2 | Rydw i eisiau'r cyfrifiadur du, nid yr un pinc! | ✓ | Mae'r frawddeg hon yn gywir. Does dim angen unrhyw newid.<br><br>Mae 'cyfrifiadur' yn enw gwrywaidd unigol, felly does dim angen treiglad meddal ar gyfer y gair hwn ar ôl 'r.<br><br>Does dim angen treiglo 'pinc' ar ôl 'un' chwaith, gan fod y gair 'un' yn cyfeirio at y 'cyfrifiadur'. |


© BBC

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3 | Harri yw enw'r pysgodyn glas. | ✓ | Mae'r frawddeg hon yn gywir. Does dim angen unrhyw newid.<br><br>Mae 'pysgodyn' yn enw gwrywaidd unigol, felly does dim angen treiglad meddal ar gyfer y gair hwn ar ôl yr 'r. |
| 4 | Mae 'na band roc newydd yn ffurfio o'r enw 'Y Tafod Pinc'. | ✗ | Mae un camgymeriad yn y frawddeg hon. Cofia fod angen i ti ddefnyddio'r treiglad meddal ar ôl y gair 'na.<br><br>Mae 'tafod' yn enw gwrywaidd unigol, felly does dim angen treiglad meddal ar ôl 'y'. Y frawddeg gywir felly yw:<br><br>Mae 'na **fand** roc newydd yn ffurfio o'r enw 'Y Tafod Pinc'. |
| 5 | Nid yw'r rhaff hon yn cael ei defnyddio ar gyfer dringo. | ✓ | Mae'r frawddeg hon yn gywir, felly does dim angen unrhyw newidiadau.<br><br>Mae 'rhaff' yn enw benywaidd unigol, ac nid oes rhaid treiglo enw benywaidd unigol sy'n dechrau gyda 'rh' ar ôl 'y' neu 'r. |
| 6 | Mae'r raglen ddiddorol hon yn boblogaidd iawn. | ✗ | Mae 'rhaglen' yn enw benywaidd unigol, ac nid oes rhaid treiglo enw benywaidd unigol sy'n dechrau gyda 'rh' ar ôl 'y' neu 'r. Dyma'r frawddeg gywir felly:<br><br>Mae'r **rhaglen** ddiddorol hon yn boblogaidd iawn. |


© BBC

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7 | Hoffwn newid o'r ffrog hyll yma. | ✓ | Mae'r frawddeg hon yn gywir, felly does dim angen newid unrhyw beth.<br><br>Er bod 'ffrog' yn enw benywaidd unigol, dydy'r llythyren 'ff' byth yn treiglo. |
| 8 | Eisteddais i ar y cadair gyfforddus. | ✗ | Mae angen newid y frawddeg hon. Mae 'cadair' yn enw benywaidd unigol, ac felly mae angen treiglad meddal ar ôl 'y'. Dyma felly yw'r frawddeg gywir:<br><br>Eisteddais i ar y **gadair** gyfforddus. |


© BBC